



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2021 Rhif 457 (Cy. 145)

2021 No. 457 (W. 145)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7)
2021**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 7) Regulations
2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau yn darparu y bydd y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 3A i'r prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymwys i Gymru gyfan tan ddiwedd y diwrnod ar 25 Ebrill 2021. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio cyfyngiadau a gofynion Atodlen 3A er mwyn—

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part 2A of the Public Health (Control of Disease) Act 1984 enables the Welsh Ministers, by regulations, to make provision for the purpose of preventing, protecting against, controlling or providing a public health response to the incidence or spread of infection or contamination in Wales.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

These Regulations amend the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1609 (W. 335)) ("the principal Regulations").

The amendments provide that the restrictions and requirements set out in Schedule 3A to the principal Regulations will continue to apply to the whole of Wales until the end of the day on 25 April 2021. The Regulations also amend the Schedule 3A restrictions and requirements to—

- (a) dileu'r gwaharddiad ar ymgynnull at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad (canfasio);
- (b) galluogi i bob mangre fanwerthu ailagor;
- (c) caniatáu i bob gwasanaeth personol cysylltiad agos agor ei fangre, caniatáu i wasanaethau o'r fath gael eu darparu mewn anheddau preifat, a chaniatáu i sbaon a chyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd o dan do agor at ddibenion darparu gwasanaethau o'r fath (yn unig);
- (d) caniatáu i leoliadau priodasau agor at ddibenion galluogi person i ymweld â'r lleoliad, drwy apwyntiad, gyda golwg ar ei archebu mewn perthynas â gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ar gyfer dathlu digwyddiad o'r fath;
- (e) caniatáu i amlogfeydd agor yn gyfan gwbl (ac mae newid cyfatebol wedi ei wneud i Atodlen 4 fel na fydd yn ofynnol i amlogfeydd gau o dan Lefel Rhybudd 4 ychwaith).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn dileu'r cyfyngiadau teithio presennol ar draws pob Lefel Rhybudd ac yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn gosod cyfyngiadau a gofynion sy'n ymwneud â theithio rhyngwladol sy'n gymwys i bob Lefel Rhybudd. Maent—

- (a) yn darparu na chaiff unrhyw berson ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin (y Deyrnas Unedig, Ynysydd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) heb esgus rhesymol;
- (b) yn darparu bod rhaid i unrhyw berson sydd mewn man cychwyn (er enghraifft, maes awyr) at ddibenion ymadael â'r ardal deithio gyffredin ddarparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi ei chwblhau i swyddog gorfodaeth ar gais.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gyflawni neu hwyluso gweithgaredd a wneir at ddibenion darbwyllo person i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad (er enghraifft, canfasio) gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithgaredd ac o ledaenu'r coronafeirws ynddo. Rhaid i'r person sy'n gyfrifol hefyd roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynghylch y mesurau rhesymol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, gan gynnwys i ddarparu ar gyfer gorfodi'r darpariaethau newydd ar deithio rhyngwladol.

- (a) remove the prohibition on gathering for the purposes of persuading or dissuading a person to vote in a particular manner in an election (canvassing);
- (b) enable all retail premises to re-open;
- (c) allow all close contact personal services to open their premises, allow such services to be provided in private dwellings, and allow spas and indoor sports and fitness facilities to open for the purposes of providing such services (only);
- (d) allow wedding venues to open for the purposes of enabling a person to visit the venue, by appointment, with a view to booking it in relation to the solemnisation of a marriage, formation of civil partnership or alternative wedding ceremony, or for the celebration of such an event;
- (e) allow crematoriums to fully open (and an equivalent change is made to Schedule 4 so that crematoriums won't be required to close under Alert Level 4 either).

The Regulations also remove the current travel restrictions across all Alert Levels and amend the principal Regulations to impose restrictions and requirements relating to international travel that apply to all Alert Levels. They—

- (a) provide that no person may depart Wales to a destination outside the common travel area (the United Kingdom, the Channel Islands, the Isle of Man and the Republic of Ireland) without a reasonable excuse;
- (b) provide that any person who is at an embarkation point (for example, an airport) for the purposes of leaving the common travel area must provide a completed international travel declaration form to an enforcement officer on request.

The Regulations also amend the principal Regulations to require a person responsible for carrying out or facilitating activity undertaken for the purposes of persuading or dissuading a person to vote in a particular manner in an election (for example, canvassing) to take all reasonable measures to minimise the risk of exposure to, and the spread of, coronavirus at the activity. The person responsible must also have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers about the reasonable measures. The Regulations also make minor and consequential amendments, including to provide for the enforcement of the new provisions on international travel.

O ganlyniad i'r diwygiadau sy'n ymwneud â theithio rhyngwladol, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 er mwyn gosod gofyniad ar weithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth masnachol sy'n ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin. Bydd yn ofynnol i weithredwyr o'r fath ddarparu gwybodaeth i deithwyr ynghylch y cyfyngiad ar ymadael â Chymru i fynd i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin a'r gofyniad i gwblhau ffurflen datganiad teithio rhyngwladol. Mae'r wybodaeth hon i'w darparu ar yr adeg archebu ac o leiaf 24 awr cyn yr amser y disgwylir i'r gwasanaeth ymadael.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

In consequence of the amendments relating to international travel, these Regulations also amend the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020 to impose a requirement on the operators of commercial transport services departing from Wales to a destination outside the common travel area. Such operators will be required to provide information to passengers about the restriction on leaving Wales for a destination outside the common travel area and the requirement to complete an international travel declaration form. This information is to be provided at the time of booking and at least 24 hours prior to the scheduled departure.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely cost and benefit of complying with these Regulations.

2021 Rhif 457 (Cy. 145)

2021 No. 457 (W. 145)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

PUBLIC HEALTH, WALES

**Rheoliadau Diogelu Iechyd
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif
5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7)
2021**

**The Health Protection (Coronavirus
Restrictions) (No. 5) (Wales)
(Amendment) (No. 7) Regulations
2021**

Cymeradwywyd gan Senedd Cymru

Approved by Senedd Cymru

Gwnaed am 3.43 p.m. ar 9 Ebrill 2021

Made at 3.43 p.m. on 9 April 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 6.00 p.m. ar 9 Ebrill 2021*

*Laid before Senedd
Cymru at 6.00 p.m. on 9 April 2021*

Yn dod i rym 12 Ebrill 2021

Coming into force 12 April 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 45B, 45C(1) and (3)(c), 45F(2) and 45P(2) of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

These Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) in Wales.

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45B, 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

(1) 1984 c. 22. Sections 45B, 45C, 45F and 45P were inserted by section 129 of the Health and Social Care Act 2008 (c. 14). The functions under these sections are conferred on "the appropriate Minister". Under section 45T(6) of the 1984 Act the appropriate Minister, as respects Wales, is the Welsh Ministers.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym yn union cyn dechrau'r diwrnod ar 12 Ebrill 2021.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4(6A), yn lle "11 Ebrill" rhodder "25 Ebrill".

(3) Ar ôl Rhan 3 mewnosoder—

“RHAN 3A

Cyfyngiadau teithio etc.

Cyfyngiad ar deithio rhyngwladol

14A.—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

- (a) ymadael â Chymru i deithio i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, neu
- (b) teithio i fan cychwyn, neu fod yn bresennol ynddo, at ddiben teithio oddi yno i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin.

(2) At ddibenion paragraff (1), mae gan berson esgus rhesymol—

The Welsh Ministers consider that restrictions and requirements imposed by these Regulations are proportionate to what they seek to achieve, which is a public health response to that threat.

In accordance with section 45R of that Act the Welsh Ministers are of the opinion that, by reason of urgency, it is necessary to make this instrument without a draft having been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) (Amendment) (No. 7) Regulations 2021.

(2) These Regulations come into force immediately before the start of the day on 12 April 2021.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020

2.—(1) The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No. 5) (Wales) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 4(6A), for "11 April" substitute "25 April".

(3) After Part 3 insert—

“PART 3A

Travel restrictions etc.

Restriction on international travel

14A.—(1) No person may, without a reasonable excuse—

- (a) leave Wales to travel to a destination outside the common travel area, or
- (b) travel to, or be present at, an embarkation point for the purpose of travelling from there to a destination outside the common travel area.

(2) For the purposes of paragraph (1), a person has a reasonable excuse if—

(1) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28), O.S. 2021/172 (Cy. 40), O.S. 2021/210 (Cy. 52), O.S. 2021/307 (Cy. 79) ac O.S. 2021/413 (Cy. 133).

(1) S.I. 2020/1609 (W. 335) as amended by S.I. 2020/1610 (W. 336), S.I. 2020/1623 (W. 340), S.I. 2020/1645 (W. 345), S.I. 2021/20 (W. 7), S.I. 2021/46 (W. 10), S.I. 2021/57 (W. 13), S.I. 2021/66 (W. 15), S.I. 2021/95 (W. 26), S.I. 2021/103 (W. 28), S.I. 2021/172 (W. 40), S.I. 2021/210 (W. 52), S.I. 2021/307 (W. 79) and S.I. 2021/413 (W. 133).

- (a) os yw'r diben y mae'r person yn teithio i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin ato yn rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall sy'n rhesymol ymarferol;
 - (b) os yw un o'r amgylchiadau ym mharagraff (4) yn gymwys.
- (3) Mae enghreifftiau o'r dibenion y gall fod yn rhesymol angenrheidiol i berson deithio i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin atynt yn cynnwys—
- (a) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol;
 - (b) osgoi salwch, anaf neu risg arall o niwed;
 - (c) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;
 - (d) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;
 - (e) darparu, cael neu gael gfael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;
 - (f) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;
 - (g) symud cartref;
 - (h) ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl;
 - (i) cael gfael ar wasanaethau addysgol neu gael y gwasanaethau hynny.
- (4) Yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) yw bod y person yn—
- (a) darparu neu'n cael cynhorthwy brys;

- (a) the purpose for which the person is travelling to a destination outside the common travel area is reasonably necessary and there is no reasonably practicable alternative;
 - (b) one of the circumstances in paragraph (4) applies.
- (3) Examples of purposes for which it may be reasonably necessary for a person to travel to a destination outside the common travel area include—
- (a) obtaining or providing medical assistance;
 - (b) avoiding illness, injury or other risk of harm;
 - (c) working or providing voluntary or charitable services;
 - (d) meeting a legal obligation, including attending court or satisfying bail conditions, or participating in legal proceedings;
 - (e) providing, receiving or accessing care or assistance, including childcare or relevant personal care within the meaning of paragraph 7(3B) of Schedule 4 to the Safeguarding of Vulnerable Groups Act 2006(1), where the person receiving the care is a vulnerable person;
 - (f) in relation to children who do not live in the same household as their parents, or one of their parents, continuing existing arrangements for access to, and contact between, parents and children, and for the purposes of this paragraph, "parent" includes a person who is not a parent of the child, but who has parental responsibility for, or who has care of, the child;
 - (g) moving home;
 - (h) undertaking activities in connection with the purchase, sale, letting or rental of residential property;
 - (i) accessing or receiving educational services.
- (4) The circumstances referred to in paragraph (2)(b) are that the person is—
- (a) providing or receiving emergency assistance;

(1) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(1) 2006 c. 47. Paragraph 7(3B) was inserted by section 66(2) of the Protection of Freedoms Act 2012 (c. 9).

- (b) mynd i weinyddiad priodas, ffurfiad partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall—
 - (i) fel parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall, neu
 - (ii) fel gofalwr parti i'r briodas, y bartneriaeth sifil neu'r briodas arall;
 - (c) mynd i angladd—
 - (i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,
 - (ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu
 - (iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;
 - (d) athletwr elit ac yn teithio at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
 - (e) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elit, neu'n darparu cymorth mewn—
 - (i) digwyddiad chwaraeon elit, neu
 - (ii) digwyddiad chwaraeon sy'n digwydd y tu allan i'r ardal deithio gyffredin;
 - (f) teithio er mwyn pleidleisio mewn etholiad.
- (5) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn gymwys i berson y cyfeirir ato yn Atodlen 5A.
- (6) Yn y rheoliad hwn, ac yn rheoliadau 14B a 29—
- (a) mae i “yr ardal deithio gyffredin” yr un ystyr â “the common travel area” yn Neddf Mewnfudo 1971(1);
 - (b) ystyr “man cychwyn” yw terfynfa ryngwladol neu unrhyw fan arall yng Nghymru y caiff person deithio ohono i gyrrhfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Ffurflen datganiad teithio rhyngwladol

14B.—(1) Rhaid i berson (“P”) sy'n bresennol mewn man cychwyn at ddiben teithio oddi yno i gyrrhfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, os gofynnir iddo wneud hynny gan swyddog gorfodaeth, ddarparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi ei chwblhau i'r swyddog.

- (b) attending a solemnization of a marriage, formation of a civil partnership or alternative wedding ceremony—
 - (i) as a party to the marriage, civil partnership or wedding, or
 - (ii) as the carer of a party to the marriage, civil partnership or wedding;
 - (c) attending a funeral—
 - (i) as a person responsible for arranging the funeral,
 - (ii) if invited by a person responsible for arranging the funeral, or
 - (iii) as the carer of a person attending;
 - (d) an elite athlete and is travelling for the purposes of training or competition;
 - (e) providing coaching or other support to an elite athlete, or providing support at—
 - (i) an elite sporting event, or
 - (ii) a sporting event taking place outside the common travel area;
 - (f) travelling to vote in an election.
- (5) Paragraphs (1) and (2) do not apply to a person referred to in Schedule 5A.
- (6) In this regulation, and in regulations 14B and 29—
- (a) “the common travel area” has the same meaning as in the Immigration Act 1971(1);
 - (b) “embarkation point” means an international terminal or any other place in Wales from which a person may travel to a destination outside the United Kingdom.

International travel declaration form

14B.—(1) A person (“P”) who is present at an embarkation point for the purpose of travelling from there to a destination outside the common travel area must, if requested by an enforcement officer, provide the officer with a completed international travel declaration form.

(1) 1971 p. 77.

(1) 1971 c. 77.

(2) Rhaid i'r ffurflen datganiad teithio rhyngwladol fod ar y ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru⁽¹⁾ a chynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) enw llawn P,
- (b) dyddiad geni a chenedligrwydd P,
- (c) rhif pasbort P, neu rif cyfeirnod dogfen deithio P (fel y bo'n briodol),
- (d) cyfeiriad cartref P,
- (e) cyrchfan P,
- (f) y rheswm y mae P yn teithio i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin,
- (g) datganiad bod P yn ardystio bod yr wybodaeth y mae P yn ei darparu yn wir, ac
- (h) y dyddiad y mae'r datganiad wedi ei gwblhau.

(3) Pan fo P yn teithio gyda phlentyn neu berson nad oes ganddo alluedd ("G"), y mae gan P gyfrifoldeb drosto, rhaid i P, os gofynnir iddo wneud hynny gan swyddog gorfodaeth, ddarparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi ei chwblhau sy'n ymwneud ag G i'r swyddog.

(4) Nid yw'r rhwymedigaeth ym mharagraff (1) yn gymwys—

- (a) i G, na
- (b) i berson y cyfeirir ato yn Atodlen 5A.

(5) Yn y rheoliad hwn, nid oes gan berson alluedd os nad oes ganddo alluedd, o fewn ystyr "lack capacity" yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005⁽²⁾, i gwblhau'r ffurflen datganiad teithio rhyngwladol."

(4) Ar ôl Rhan 4 mewnosoder—

(2) The international travel declaration form must be in the form published by the Welsh Ministers⁽¹⁾ and include the following information—

- (a) P's full name,
- (b) P's date of birth and nationality,
- (c) P's passport number, or travel document reference number (as appropriate),
- (d) P's home address,
- (e) P's destination,
- (f) the reason P is travelling to a destination outside the common travel area,
- (g) a statement that P certifies that the information P provides is true, and
- (h) the date on which the declaration is completed.

(3) Where P is travelling with a child or person who lacks capacity ("C"), for whom P has responsibility, P must, if requested by an enforcement officer, provide the officer with a completed international travel declaration form relating to C.

(4) The obligation in paragraph (1) does not apply—

- (a) to C, or
- (b) to a person referred to in Schedule 5A.

(5) In this regulation, a person lacks capacity if they lack capacity, within the meaning of section 2 of the Mental Capacity Act 2005⁽²⁾, to complete the international travel declaration form."

(4) After Part 4 insert—

(1) Mae'r ffurflen ar gael ar https://llyw.cymru/eithriadau-rhag-hunanynysu-coronafeirws-covid-19-html?_ga=2.173775011.1431933475.16178961621482751966.1610356396#section-57963.

(2) 2005 p. 9.

(1) The form can be found at <https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19-html#section-57963>.

(2) 2005 c. 9.

“RHAN 4A

Cymryd mesurau ataliol wrth ymgyrchu mewn etholiad

Gofyniad i gymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws wrth ymgyrchu mewn etholiad

18A.—(1) Rhaid i berson sy'n gyfrifol am gyflawni neu hwyluso gweithgaredd sy'n cynnwys cymryd rhan mewn cynulliad at ddibenion darbwyllo unrhyw berson i bleidleisio neu i beidio â phleidleisio mewn modd penodol mewn etholiad—

- (a) cymryd pob mesur rhesymol i leihau'r risg—
 - (i) y bydd unrhyw berson sy'n ymwneud â'r gweithgaredd yn dod i gysylltiad â'r coronafeirws, a
 - (ii) y bydd unrhyw berson o'r fath yn lledaenu'r coronafeirws, a
- (b) wrth gymryd y mesurau hynny, roi sylw i unrhyw ganllawiau amdanynt a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(2) O ran y mesurau sydd i'w cymryd o dan baragraff (1)(a)—

- (a) rhaid iddynt gynnwys cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad (ac eithrio rhwng aelodau o'r un aelwyd neu ofalwr a'r person a gynorthwyir gan y gofalwr), a
- (b) gallant gynnwys cymryd mesurau eraill sy'n cyfyngu ar ryngweithio wyneb yn wyneb agos ac yn cynnal hylendid megis—
 - (i) cyfyngu ar nifer y personau sy'n cymryd rhan yn y cynulliad;
 - (ii) gwisgo gorchuddion wyneb;
 - (iii) cyfyngu ar nifer y personau sy'n trin taflenni neu ddeunyddiau eraill.

(3) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt ddiwygio canllawiau a ddyroddir o dan baragraff (1)(b), a
- (b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau (ac unrhyw ddiwygiadau). ”

(5) Yn rheoliad 25(2), yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), ar ôl “rheoliadau” mewnosoder “14B, 18A,”.

“PART 4A

Taking preventative measures when election campaigning

Requirement to take all reasonable measures to minimise the risk of exposure to coronavirus when election campaigning

18A.—(1) A person responsible for carrying out or facilitating an activity which involves participating in a gathering for the purposes of persuading or dissuading any person to vote in a particular manner in an election must—

- (a) take all reasonable measures to minimise the risk of—
 - (i) any person involved in the activity being exposed to coronavirus, and
 - (ii) the spread of coronavirus by any such person, and
- (b) in taking those measures, have regard to any guidance about them issued by the Welsh Ministers.

(2) The measures to be taken under paragraph (1)(a)—

- (a) must include taking all reasonable measures to ensure that a distance of 2 metres is maintained between any persons participating in the gathering (except between members of the same household or a carer and the person assisted by the carer), and
- (b) may include taking other measures which limit close face-to-face interaction and maintain hygiene such as—
 - (i) limiting the number of persons participating in the gathering;
 - (ii) wearing face coverings;
 - (iii) limiting the number of persons handling leaflets or other materials.

(3) The Welsh Ministers—

- (a) may revise guidance issued under paragraph (1)(b), and
- (b) must publish the guidance (and any revisions). ”

(5) In regulation 25(2), in the words before subparagraph (a), after “regulations” insert “14B, 18A,”.

(6) Yn rheoliad 27(1), o flaen is-baragraff (a) mewnosoder—

“(za) rheoliad 18A(1),”.

(7) Yn lle rheoliad 29 rhodder—

“Pwerau sy’n ymwneud â chyfyngiadau teithio

29.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person ar fin ymadael â Chymru i deithio i gyrchfan y tu allan i’r ardal deithio gyffredin, ac eithrio o fan cychwyn, yn groes i reoliad 14A(1)(a).

(2) Caiff y swyddog gorfodaeth gyfarwyddo’r person i beidio ag ymadael â Chymru.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo gan swyddog gorfodaeth sail resymol dros amau bod person wedi ymadael â Chymru i deithio i gyrchfan y tu allan i’r ardal deithio gyffredin, ac eithrio o fan cychwyn, yn groes i reoliad 14A(1)(a).

(4) Caiff y swyddog gorfodaeth—

(a) cyfarwyddo’r person i ddychwelyd i Gymru;

(b) dychwelyd y person i Gymru.

(5) Mae paragraff (6) yn gymwys pan fo swyddog gorfodaeth yn ystyried—

(a) bod person (“P”) yn bresennol mewn man cychwyn at ddibenion teithio oddi yno i gyrchfan y tu allan i’r ardal deithio gyffredin, a

(b) bod y gofyniad yn rheoliad 14B(1) yn gymwys i P a bod P wedi methu â chydymffurfio â’r gofyniad.

(6) Caiff y swyddog gorfodaeth gyfarwyddo P i gwblhau ffurflen datganiad teithio rhyngwladol a chaiff bennu amser erbyn pryd y mae’r ffurflen i’w chwblhau.

(7) Mae paragraff (8) yn gymwys—

(a) pan fo swyddog gorfodaeth yn ystyried bod y cyfyngiad yn rheoliad 14A(1) yn gymwys yn achos person (“P”) sy’n bresennol mewn man cychwyn, a

(b) pan fo P naill ai—

(i) yn methu â chydymffurfio â’r gofyniad yn rheoliad 14B(1), ac na fo’n cwblhau’r ffurflen datganiad teithio rhyngwladol pan y’i cyfarwyddir i wneud hynny o dan baragraff (5), neu

(6) In regulation 27(1), before sub-paragraph (a) insert—

“(za) regulation 18A(1),”.

(7) For regulation 29 substitute—

“Powers relating to travel restrictions

29.—(1) Paragraph (2) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting a person is about to leave Wales to travel to a destination outside the common travel area, other than from an embarkation point, in contravention of regulation 14A(1)(a).

(2) The enforcement officer may direct the person not to leave Wales.

(3) Paragraph (4) applies where an enforcement officer has reasonable grounds for suspecting a person has left Wales to travel to a destination outside the common travel area, other than from an embarkation point, in contravention of regulation 14A(1)(a).

(4) The enforcement officer may—

(a) direct the person to return to Wales;

(b) return the person to Wales.

(5) Paragraph (6) applies where an enforcement officer considers—

(a) that a person (“P”) is present at an embarkation point for the purposes of travelling from there to a destination outside the common travel area, and

(b) that the requirement in regulation 14B(1) applies to P and P has failed to comply with the requirement.

(6) The enforcement officer may direct P to complete an international travel declaration form and may specify a time by which the form is to be completed.

(7) Paragraph (8) applies where—

(a) an enforcement officer considers that the restriction in regulation 14A(1) applies in the case of a person (“P”) who is present at an embarkation point, and

(b) P either—

(i) fails to comply with the requirement in regulation 14B(1), and does not complete the international travel declaration form when directed to do so under paragraph (5), or

(ii) yn darparu ffurflen datganiad teithio rhyngwladol wedi ei chwblhau i'r swyddog gorfodaeth y mae'r swyddog yn ystyried nad yw'n datgelu esgus rhesymol.

(8) Caiff y swyddog gorfodaeth—

- (a) cyfarwyddo P i ymadael â'r man cychwyn heb ymadael â'r Deyrnas Unedig;
- (b) symud y person o'r man cychwyn."

(8) Yn lle rheoliad 38 rhodder—

"Troseddau cyfyngiadau teithio

38.—(1) Mae person sy'n torri gofyniad yn—

- (a) rheoliad 14A, neu
- (b) rheoliad 14B,

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'n drosedd i berson ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol ar ffurflen datganiad teithio rhyngwladol o dan reoliad 14B pan fo'r person yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n ddi-hid o ran a yw'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys pan fo'r wybodaeth anwir neu gamarweiniol wedi ei rhoi am resymau diogelwch gwladol."

(9) Yn rheoliad 48(1), ar ôl "rheoliad 49," mewnosoder "49A,".

(10) Ar ôl rheoliad 49 mewnosoder—

"Swm cosb benodedig: gofynion teithio rhyngwladol

49A. Pan fo hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi mewn cysylltiad â throsedd honedig o dan reoliad 38(1)(a), swm y gosb benodedig yw £5000."

(11) Yn rheoliad 53(1)(c), ar ôl "49," mewnosoder "49A,".

(12) Yn rheoliad 57(1)—

(a) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—

"(da) ystyr "gwasanaeth cysylltiad agos" yw gwasanaeth a ddarperir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (i) salonau gwallt a barbwyr;
- (ii) salonau ewinedd a harddwch gan gynnwys gwasanaethau lliw haul ac electrolysis;

(ii) provides the enforcement officer with a completed international travel declaration form which the officer considers does not disclose a reasonable excuse.

(8) The enforcement officer may—

- (a) direct P to leave the embarkation point without leaving the United Kingdom;
- (b) remove the person from the embarkation point."

(8) For regulation 38 substitute—

"Travel restriction offences

38.—(1) A person who contravenes a requirement in—

- (a) regulation 14A, or
- (b) regulation 14B,

commits an offence.

(2) It is an offence for a person to provide false or misleading information on an international travel declaration form under regulation 14B where the person knows the information is false or misleading, or is reckless as to whether the information is false or misleading.

(3) Paragraph (2) does not apply where the false or misleading information is given for reasons of national security."

(9) In regulation 48(1), after "regulation 49," insert "49A,".

(10) After regulation 49 insert—

"Amount of fixed penalty: international travel requirements

49A. Where a fixed penalty notice is issued in respect of an alleged offence under regulation 38(1)(a), the amount of the fixed penalty is £5000."

(11) In regulation 53(1)(c), after "49," insert "49A,".

(12) In regulation 57(1)

(a) after sub-paragraph (d) insert—

"(da) "close contact service" means a service which is ordinarily provided by any of the following—

- (i) hair salons and barbers;
- (ii) nail and beauty salons including tanning and electrolysis services;

- (iii) gwasanaethau tyllu'r corff a thatŵio;"
- (b) hepgorer is-baragraff (t).
- (13) Yn Atodlen 1, hepgorer Rhan 3.
- (14) Yn Atodlen 2, hepgorer Rhan 3.
- (15) Yn Atodlen 3, hepgorer Rhan 3.
- (16) Yn Atodlen 3A—
 - (a) ym mharagraff 1—
 - (i) yn is-baragraff (6), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—
 - “(ba) cymryd rhan mewn cynulliad at ddibenion cael neu ddarparu—
 - (i) gwasanaethau meddygol neu iechyd, gan gynnwys gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, a gwasanaethau a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr, optometryddion, awdiolegwyr, ciropodyddion, ceiropractyddion, osteopathiaid, ffisiotherapyddion ac aciwbigwyr;
 - (ii) gwasanaeth cysylltiad agos;”;
 - (ii) hepgorer is-baragraff (7);
 - (b) ym mharagraff 3, hepgorer is-baragraff (7);
 - (c) hepgorer Rhan 3;
 - (d) ym mharagraff 7(2), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
 - “(ca) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y gofynnir amdano neu a awdurdodir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod lleol;”
 - (e) ym mharagraff 9—
 - (i) yn y pennawd, hepgorer “ac amlogsfeydd”;
 - (ii) yn is-baragraff (1)—
 - (aa) yn lle “mharagraffau 19 ac 20” rhodder “mharagraff 19”;
 - (bb) yn lle “is-baragraffau (2) a (3)” rhodder “is-baragraff (2)”;
 - (iii) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gais Gweinidogion” rhodder “at unrhyw ddiben y gofynnir amdano neu a awdurdodir gan Weinidogion”;
 - (iv) hepgorer is-baragraff (3);
 - (v) hepgorer is-baragraff (4)(b);
 - (vi) hepgorer is-baragraff (5);

- (iii) body piercings and tattooing services;”
- (b) omit sub-paragraph (t).
- (13) In Schedule 1, omit Part 3.
- (14) In Schedule 2, omit Part 3.
- (15) In Schedule 3, omit Part 3.
- (16) In Schedule 3A—
 - (a) in paragraph 1—
 - (i) in sub-paragraph (6), after paragraph (b) insert—
 - “(ba) participating in a gathering for the purposes of obtaining or providing—
 - (i) medical or health services, including services relating to mental health, and services provided by dentists, opticians, optometrists, audiologists, chiroprodists, chiropractors, osteopaths, physiotherapists and acupuncturists;
 - (ii) a close contact service;”;
 - (ii) omit sub-paragraph (7);
 - (b) in paragraph 3, omit sub-paragraph (7);
 - (c) omit Part 3;
 - (d) in paragraph 7(2), after paragraph (c) insert—
 - “(ca) the use of premises for any purpose as may be requested or authorised by the Welsh Ministers or a local authority;”
 - (e) in paragraph 9—
 - (i) in the heading, omit “and crematoriums”;
 - (ii) in sub-paragraph (1)—
 - (aa) for “paragraphs 19 and 20” substitute “paragraph 19”;
 - (bb) for “sub-paragraphs (2) and (3)” substitute “sub-paragraph (2)”;
 - (iii) in sub-paragraph (2)(b), for “to provide public services upon the request of” substitute “for any purpose as may be requested or authorised by”;
 - (iv) omit sub-paragraph (3);
 - (v) omit sub-paragraph (4)(b);
 - (vi) omit sub-paragraph (5);

- (f) ym mharagraff 10—
- (i) yn is-baragraff (1), yn lle “21 i 47” rhodder “24 i 44”;
- (ii) yn is-baragraff (3), yn lle paragraff (a) rhodder—
- “(a) a restrir ym mharagraff 39 neu 42 (sbaon a chyfleusterau chwaraeon a ffitrwydd o dan do) agor ei fangre i’r cyhoedd, ond dim ond at ddibenion darparu, drwy apwyntiad, wasanaethau cysylltiad agos neu wasanaethau a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr, optometryddion, awdiolegwyr, ciropodyddion, ceiropractyddion, osteopathiaid, ffisiotherapyddion ac aciwbigwyr;”;
- (g) ym mharagraff 11—
- (i) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “48 i 66” rhodder “51 a 52”;
- (ii) yn lle is-baragraff (1)(c) rhodder—
- “(c) caiff mangre a ddefnyddir fel lleoliad ar gyfer gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ar gyfer dathlu digwyddiad o’r fath, agor i’r cyhoedd at ddibenion galluogi person i ymweld â’r fangre, drwy apwyntiad, gyda golwg ar archebu’r fangre ar gyfer gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall, neu ar gyfer dathlu digwyddiad o’r fath;”;
- (h) hepgorer paragraffau 20 i 23;
- (i) hepgorer paragraffau 45 i 50;
- (j) hepgorer paragraffau 53 i 66.
- (17) Yn Atodlen 4—
- (a) hepgorer Rhan 3;
- (b) ym mharagraff 9—
- (i) yn y pennawd, hepgorer “ac amlosgfeydd”;
- (ii) yn is-baragraff (1)—
- (aa) yn lle “mharagraffau 19 ac 20” rhodder “mharagraff 19”;
- (bb) yn lle “is-baragraffau (2) a (3)” rhodder “is-baragraff (2)”;
- (iii) hepgorer is-baragraffau (3) a (4);
- (c) hepgorer paragraff 20.
- (18) Yn Atodlen 5, paragraff 2—
- (a) yn y geiriau o flaen paragraff (a), yn lle “11 Ebrill” rhodder “25 Ebrill”;
- (b) hepgorer paragraffau (d) ac (g).
- (f) in paragraph 10—
- (i) in sub-paragraph (1), for “21 to 47” substitute “24 to 44”;
- (ii) in sub-paragraph (3), for paragraph (a) substitute—
- “(a) listed in paragraph 39 or 42 (spas and indoor sports and fitness facilities) may open its premises to the public, but only for the purposes of providing, by appointment, close contact services or services provided by dentists, opticians, optometrists, audiologists, chiropodists, chiropractors, osteopaths, physiotherapists and acupuncturists;”;
- (g) in paragraph 11—
- (i) in sub-paragraph (1)(a), for “48 to 66” substitute “51 and 52”;
- (ii) for sub-paragraph (1)(c) substitute—
- “(c) premises used as a venue for the solemnisation of a marriage, formation of civil partnership or alternative wedding ceremony, or the celebration of such an event, may open to the public for the purposes of enabling a person to visit the premises, by appointment, with a view to booking the premises for the solemnisation of a marriage, formation of civil partnership or alternative wedding ceremony, or for the celebration of such an event;”;
- (h) omit paragraphs 20 to 23;
- (i) omit paragraphs 45 to 50;
- (j) omit paragraphs 53 to 66.
- (17) In Schedule 4—
- (a) omit Part 3;
- (b) in paragraph 9—
- (i) in the heading, omit “and crematoriums”;
- (ii) in sub-paragraph (1)—
- (aa) for “paragraphs 19 and 20” substitute “paragraph 19”;
- (bb) for “sub-paragraphs (2) and (3)” substitute “sub-paragraph (2)”;
- (iii) omit sub-paragraphs (3) and (4);
- (c) omit paragraph 20.
- (18) In Schedule 5, paragraph 2—
- (a) in the words before paragraph (a), for “11 April” substitute “25 April”;
- (b) omit paragraphs (d) and (g).

“ATODLEN 5A Rheoliadau 14A a 14B

Personau sydd wedi eu hesemptio rhag y cyfyngiadau ar ymadael â'r Deyrnas Unedig, a'r gofyniad i gael ffurflen datganiad teithio

1.—(1) Person (“P”)—

- (a) sy'n aelod o genhadaeth ddiplomyddol yn y Deyrnas Unedig,
- (b) sy'n aelod o swyddfa gonsylaidd yn y Deyrnas Unedig,
- (c) sy'n swyddog neu'n was i sefydliad rhyngwladol,
- (d) a gyflogir gan sefydliad rhyngwladol fel arbenigydd neu ar genhadaeth,
- (e) sy'n gynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol,
- (f) sy'n gynrychiolydd mewn cynhadledd ryngwladol neu gynhadledd y Deyrnas Unedig y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig,
- (g) sy'n aelod o staff swyddogol cynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol, neu berson sy'n dod o fewn paragraff (f),
- (h) a ddisgrifir ym mharagraff (a) neu (b) sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig i gychwyn neu barhau â'i swyddogaethau ar genhadaeth ddiplomyddol neu mewn swydd gonsylaidd mewn gwlad neu diriogaeth arall, neu i ddychwelyd i wlad ei genedligrwydd,
- (i) sy'n gynrychiolydd i wlad dramor neu diriogaeth dramor sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig,
- (j) sy'n gynrychiolydd llywodraeth i diriogaeth dramor Brydeinig,
- (k) sy'n gludydd diplomyddol neu'n gludydd consylaidd, neu
- (l) sy'n aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (k).

“SCHEDULE 5A Regulations 14A and 14B

Persons exempt from the restrictions on leaving the United Kingdom, and the requirement to have a travel declaration form

1.—(1) A person (“P”) who is—

- (a) a member of a diplomatic mission in the United Kingdom,
- (b) a member of a consular post in the United Kingdom,
- (c) an officer or servant of an international organisation,
- (d) employed by an international organisation as an expert or on a mission,
- (e) a representative to an international organisation,
- (f) a representative at an international or United Kingdom conference who is granted privileges and immunities in the United Kingdom,
- (g) a member of the official staff of a representative to an international organisation, or of a person falling within paragraph (f),
- (h) described in paragraph (a) or (b) who is passing through the United Kingdom to commence or continue their functions at a diplomatic mission or consular post in another country or territory, or to return to the country of their nationality,
- (i) a representative of a foreign country or territory travelling to the United Kingdom to conduct official business with the United Kingdom,
- (j) a representative of the government of a British overseas territory,
- (k) a diplomatic courier or a consular courier, or
- (l) a member of the family forming part of the household of a person falling within any of paragraphs (a) to (k).

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

- (a) ystyr “cludydd consylaidd” yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae’n gweithredu ar ei rhan sy’n cadarnhau ei statws fel cludydd consylaidd yn unol ag Erthygl 35(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Consylaidd 1963;
- (b) ystyr “swyddfa gonsylaidd” yw unrhyw gonsyliaeth gyffredinol, consyliaeth, is-gonsyliaeth neu asiantaeth gonsylaidd;
- (c) ystyr “cludydd diplomyddol” yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae’n gweithredu ar ei rhan sy’n cadarnhau ei statws fel cludydd diplomyddol yn unol ag Erthygl 27(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Diplomyddol 1961;
- (d) ystyr “sefydliad rhyngwladol” yw sefydliad rhyngwladol y rhoddyd breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig;
- (e) ystyr “aelod o swyddfa gonsylaidd” yw swyddog consylaidd, cyflogai consylaidd ac aelod o staff y gwasanaeth yn unol â’r diffiniadau o “consular officer”, “consular employee” a “member of the service staff” yn Atodlen 1 i Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd 1968(1), ac mae i “pennaeth swyddfa gonsylaidd” yr ystyr a roddir i “head of consular post” yn yr Atodlen honno;
- (f) ystyr “aelod o genhadaeth ddiplomyddol” yw pennaeth y genhadaeth, aelodau o’r staff diplomyddol, aelodau o’r staff gweinyddol a thechnegol ac aelodau o staff y gwasanaeth yn unol â’r diffiniadau o “head of the mission”, “members of the diplomatic staff”, “members of the administrative and technical staff” a “members of the service staff” yn Atodlen 1 i Ddeddf Breintiau Diplomyddol 1964(2).

(2) For the purposes of this paragraph—

- (a) “consular courier” means a person who has been provided by the State on behalf of which they are acting with an official document confirming their status as a consular courier in accordance with Article 35(5) of the Vienna Convention on Consular Relations of 1963;
- (b) “consular post” means any consulate-general, consulate, vice-consulate or consular agency;
- (c) “diplomatic courier” means a person who has been provided by the State on behalf of which they are acting with an official document confirming their status as a diplomatic courier in accordance with Article 27(5) of the Vienna Convention on Diplomatic Relations of 1961;
- (d) “international organisation” means an international organisation accorded privileges and immunities in the United Kingdom;
- (e) “member of a consular post” means a “consular officer”, “consular employee” and “member of the service staff” as defined in Schedule 1 to the Consular Relations Act 1968(1), and “head of consular post” has the meaning given in that Schedule;
- (f) “member of a diplomatic mission” means the “head of the mission”, “members of the diplomatic staff”, “members of the administrative and technical staff” and “members of the service staff” as defined in Schedule 1 to the Diplomatic Privileges Act 1964(2).

(1) 1968 p. 18. Mae diwygiadau ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(2) 1964 p. 81. Mae diwygiadau ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(1) 1968 c. 18. There are amendments but none is relevant.

(2) 1964 c. 81. There are amendments but none is relevant.

2.—(1) Gwas i'r Goron neu contractwr llywodraeth pan fo'n ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) a pharagraff 3—

- (a) mae i “gwas i'r Goron” yr ystyr a roddir i “Crown servant” yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989(1);
- (b) ystyr “gwaith llywodraeth hanfodol” yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol neu'r cyflogwr perthnasol;
- (c) mae i “contractwr llywodraeth” yr ystyr a roddir i “government contractor” yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

3.—(1) Person sy'n was i'r Goron, yn contractwr llywodraeth neu'n aelod o lu ar ymweliad—

- (a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn i weithgareddau amddiffyn hanfodol gael eu cyflawni;
- (b) sy'n teithio ar lestr neu awyren a weithredir gan luoedd arfog Ei Mawrhydi, neu sy'n eu cefnogi, neu a weithredir gan lu ar ymweliad, neu sy'n ei gefnogi.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) mae i “amddiffyn” yr ystyr a roddir i “defence” yn adran 2(4) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989;
- (b) ystyr “llu ar ymweliad” yw unrhyw gorfflu, criw neu adran o luoedd gwlad, sy'n gorfflu, criw neu adran o luoedd sy'n bresennol am y tro yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig), ar wahoddiad Llywodraeth Ei Mawrhydi ar gyfer y Deyrnas Unedig.

2.—(1) A Crown servant or government contractor where they are undertaking essential government work related to the United Kingdom border outside of the United Kingdom.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1) and paragraph 3—

- (a) “Crown servant” has the meaning given in section 12(1)(a) to (e) of the Official Secrets Act 1989(1);
- (b) “essential government work” means work which has been designated as such by the relevant Department or employer;
- (c) “government contractor” has the meaning given in section 12(2) of the Official Secrets Act 1989.

3.—(1) A person who is a Crown servant, a government contractor, or a member of a visiting force, who—

- (a) is required to undertake work necessary to the delivery of essential defence activities;
- (b) is travelling on a vessel or aircraft operated by, or in support of, Her Majesty's armed forces or by, or in support of, a visiting force.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) “defence” has the meaning given in section 2(4) of the Official Secrets Act 1989;
- (b) “visiting force” means any body, contingent or detachment of the forces of a country, being a body, contingent or detachment for the time being present in the United Kingdom (including United Kingdom territorial waters), on the invitation of her Majesty's Government for the United Kingdom.

(1) 1989 p. 6. Diwygiwyd adran 12 gan baragraff 22 o Atodlen 10 i Ddeddf Lluoedd wrth Gefn 1996 (p. 14), gan baragraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38), gan baragraff 26 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Alban 1998 (p. 46), gan baragraff 9 o Atodlen 13 i Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (p. 47), gan baragraff 9 o Atodlen 6 i Ddeddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2000 (p. 32), gan baragraff 6 o Atodlen 14 i Ddeddf Ynni 2004 (p. 20), gan baragraff 58 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), gan baragraff 34 o Atodlen 10, a pharagraff 1 o Atodlen 12, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a chan baragraff 36 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

(1) 1989 c. 6. Section 12 was amended by paragraph 22 of Schedule 10 to the Reserve Forces Act 1996 (c. 14), by paragraph 30 of Schedule 12 to the Government of Wales Act 1998 (c. 38), by paragraph 26 of Schedule 8 to the Scotland Act 1998 (c. 46), by paragraph 9 of Schedule 13 to the Northern Ireland Act 1998 (c. 47), by paragraph 9 of Schedule 6 to the Police (Northern Ireland) Act 2000 (c. 32), by paragraph 6 of Schedule 14 to the Energy Act 2004 (c. 20), by paragraph 58 of Schedule 4 to the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), by paragraph 34 of Schedule 10, and paragraph 1 of Schedule 12, to the Government of Wales Act 2006 (c. 32) and by paragraph 36 of Schedule 8 to the Crime and Courts Act 2013 (c. 22).

4. Swyddog i Lywodraeth dramor, a ddaeth i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol, neu gontractwr sy'n cefnogi'r dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol hyn yn uniongyrchol.

5.—(1) Teithiwr tramwy.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), ystyr “teithiwr tramwy” yw person sydd, ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig—

- (a) yn pasio drwodd i wlad neu diriogaeth arall y tu allan i'r ardal deithio gyffredin heb ddod i'r Deyrnas Unedig, neu
- (b) yn dod i'r Deyrnas Unedig at ddiben parhau â thaith i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, ac at y diben hwnnw yn unig, ac—
 - (i) yn aros o fewn y porthladd lle y mae'n dod i'r Deyrnas Unedig hyd nes y bo'n ymadael â Chymru, neu
 - (ii) yn teithio'n uniongyrchol o'r porthladd lle y mae'n dod i'r Deyrnas Unedig i borthladd ymadael arall yng Nghymru.

6.—(1) Gweithiwr cludiant ffyrdd neu weithiwr cludiant teithwyr ffyrdd.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

- (a) mae “gyrrwr” yn cynnwys person sy'n teithio mewn cerbyd fel gyrrwr wrth gefn;
- (b) mae i “cerbyd nwyddau” yr ystyr a roddir i “goods vehicle” yn adran 192 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(1);
- (c) ystyr “gweithiwr cludiant ffyrdd” yw—
 - (i) gyrrwr cerbyd nwyddau sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â chludo nwyddau, ac eithrio nwyddau at ddiben personol anfasnachol y gyrrwr, neu
 - (ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1072/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor(2), ac sy'n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth;

4. An official of a foreign Government, who came to the United Kingdom to undertake essential border security duties, or a contractor directly supporting these essential border security duties.

5.—(1) A transit passenger.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1), “transit passenger” means a person who, on arrival in the United Kingdom—

- (a) passes through to another country or territory outside the common travel area without entering the United Kingdom, or
- (b) enters the United Kingdom for the sole purpose of continuing a journey to a country or territory outside the common travel area and—
 - (i) remains within their port of entry until their departure from Wales, or
 - (ii) travels directly from their port of entry to another port of departure in Wales.

6.—(1) A road haulage worker or a road passenger transport worker.

(2) For the purposes of this paragraph—

- (a) “driver” includes a person who is travelling in a vehicle as a relief driver;
- (b) “goods vehicle” has the meaning given in section 192 of the Road Traffic Act 1988(1);
- (c) “road haulage worker” means—
 - (i) the driver of a goods vehicle that is being used in connection with the carriage of goods, other than goods for non-commercial personal use by the driver, or
 - (ii) a person who is employed by the holder of a Community licence issued under Article 4 of Regulation (EC) No 1072/2009 of the European Parliament and of the Council(2), and who is acting in the course of their employment;

(1) 1988 p. 52. Mae diwygiadau i adran 192 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 72.

(1) 1988 c. 52. There are amendments to section 192 but none is relevant.

(2) OJ No. L 300, 14.11.2009, p. 72.

- (d) mae i “cerbyd gwasanaeth cyhoeddus” yr ystyr a roddir i “public service vehicle” yn adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981(1);
- (e) ystyr “gweithiwr cludiant teithwyr ffyrdd” yw—
- (i) gyrrwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus, neu
 - (ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1073/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor(2), ac sy’n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth.

7.—(1) Morwyr a meistri, fel y diffinnir “seaman” a “master” yn adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995(3), pan fônt yn teithio o’r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith neu’n cael eu dychwelyd o’r Deyrnas Unedig yn unol â’r Confensiwn Llafur Morwrol, 2006 neu’r Confensiwn Gwaith mewn Pysgota, 2007.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) ystyr “y Confensiwn Llafur Morol, 2006” yw’r Confensiwn a fabwysiadwyd ar 23 Chwefror 2006 gan Gynhadledd Gyffredinol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(4);
- (b) ystyr “y Confensiwn Gwaith mewn Pysgota, 2007” yw’r Confensiwn a fabwysiadwyd yng Ngenefa ar 14 Mehefin 2007 gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(5).

8. Peilot, fel y diffinnir “pilot” ym mharagraff 22(1) o Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(6), pan fo’n teithio o’r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu’n cael ei dychwelyd o’r Deyrnas Unedig.

- (d) “public service vehicle” has the meaning given in section 1 of the Public Passenger Vehicles Act 1981(1);

(e) “road passenger transport worker” means—

- (i) the driver of a public service vehicle, or
- (ii) a person who is employed by the holder of a Community licence issued under Article 4 of Regulation (EC) No 1073/2009 of the European Parliament and of the Council(2), and who is acting in the course of their employment.

7.—(1) Seamen and masters, as defined in section 313(1) of the Merchant Shipping Act 1995(3), where they are travelling from the United Kingdom in the course of their work or are being repatriated from the United Kingdom in accordance with the Maritime Labour Convention, 2006 or the Work in Fishing Convention, 2007.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) “the Maritime Labour Convention, 2006” means the Convention adopted on 23 February 2006 by the General Conference of the International Labour Organisation(4);
- (b) “the Work in Fishing Convention, 2007” means the Convention adopted at Geneva on 14 June 2007 by the International Labour Organisation(5).

8. A pilot, as defined in paragraph 22(1) of Schedule 3A to the Merchant Shipping Act 1995(6), where they are travelling from the United Kingdom in the course of their work or are being repatriated from the United Kingdom.

(1) 1981 p. 14. Diwygiwyd adran 1 gan adran 139(3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67).
 (2) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 88.
 (3) 1995 p. 21. Mae diwygiadau i adran 313(1) ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.
 (4) Gorch. 7049. ISBN 978 010 1889 766.
 (5) Gorch. 7375.
 (6) Mewnosodwyd Atodlen 3A gan Atodlen 1 i Ddeddf Diogelwch Morol 2003 (p. 16).

(1) 1981 c. 14. Section 1 was amended by section 139(3) of the Transport Act 1985 (c. 67).
 (2) OJ No. L 300, 14.11.2009, p. 88.
 (3) 1995 c. 21. There are amendments to section 313(1) but none is relevant.
 (4) Cm. 7049. ISBN 978 010 1889 766.
 (5) Cm 7375.
 (6) Schedule 3A was inserted by Schedule 1 to the Marine Safety Act 2003 (c. 16).

9. Arolygydd neu syrfëwr llongau a benodwyd o dan adran 256 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(1) neu gan lywodraeth meddiant Prydeinig perthnasol fel y diffinnir “relevant British possession” yn adran 313(1) o’r Ddeddf honno, pan fo’n teithio o’r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

10.—(1) Aelod o griw awyren pan fo’n teithio o’r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu y mae’n ofynnol iddo deithio o’r Deyrnas Unedig fel arall at ddibenion gwaith.

(2) Yn is-baragraff (1)—

(a) ystyr “aelod o griw awyren” yw person sydd—

(i) yn gweithredu fel peilot, llywiwr hedfan, peiriannydd hedfan neu weithredwr radioteleffoni hedfan yr awyren,

(ii) yn cael ei gludo ar y dec hedfan ac yn cael ei benodi gan weithredwr yr awyren i roi neu i oruchwylio’r hyfforddiant, y profiad, yr ymarfer a’r profion cyfnodol sy’n ofynnol ar gyfer y criw hedfan o dan erthygl 114(2) o Orchymyn Llywio Awyr 2016(2) neu o dan Atodiad III neu Atodiad VI i Reoliad Gweithrediadau Awyr EASA, neu

(iii) yn cael ei gludo ar yr hediad at ddiben cyflawni dyletswyddau sydd i’w haseinio gan y gweithredwr neu’r peilot sydd â rheolaeth o’r awyren er budd diogelwch teithwyr neu’r awyren;

(b) mae i “Rheoliad Gweithrediadau Awyr EASA” yr ystyr a roddir i “EASA Air Operations Regulation” ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Orchymyn Llywio Awyr 2016.

11. Arolygwyr hedfan sifil, fel y diffinnir “civil aviation inspector” yn Atodiad 9 i’r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol a lofnodwyd yn Chicago ar 7 Rhagfyr 1944(3), pan fônt yn teithio o’r Deyrnas Unedig wrth ymgymryd â dyletswyddau arolygu.

9. An inspector, or a surveyor of ships, appointed under section 256 of the Merchant Shipping Act 1995(1), or by a government of a relevant British possession as defined in section 313(1) of that Act, where they are travelling from the United Kingdom in the course of their work.

10.—(1) A member of aircraft crew where they are travelling from the United Kingdom in the course of their work or are otherwise required to travel from the United Kingdom for work purposes.

(2) In sub-paragraph (1)—

(a) “member of aircraft crew” means a person who—

(i) acts as a pilot, flight navigator, flight engineer or flight radiotelephony operator of the aircraft,

(ii) is carried on the flight deck and is appointed by the operator of the aircraft to give or to supervise the training, experience, practice and periodical tests required for the flight crew under article 114(2) of the Air Navigation Order 2016(2) or under Annex III or Annex VI of the EASA Air Operations Regulation, or

(iii) is carried on the flight for the purpose of performing duties to be assigned by the operator or the pilot in command of the aircraft in the interests of the safety of passengers or of the aircraft;

(b) “EASA Air Operations Regulation” has the meaning given in paragraph 1 of Schedule 1 to the Air Navigation Order 2016.

11. Civil aviation inspectors, as defined in Annex 9 to the Convention on International Civil Aviation signed at Chicago on 7 December 1944(3), where they are travelling from the United Kingdom when engaged on inspection duties.

(1) Mae diwygiadau i adran 256 ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(2) O.S. 2016/765.

(3) Argraffiad diweddaraf Atodiad 9, a gyhoeddir gan y Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol, yw’r 15ed argraffiad, sy’n gymwys ers 23 Chwefror 2018 (ISBN 978-92-9258-301-9).

(1) There are amendments to section 256 but none is relevant.

(2) S.I. 2016/765.

(3) The latest edition of Annex 9, which is published by the International Civil Aviation Organization, is the 15th edition, which applied from 23 February 2018 (ISBN 978-92-9258-301-9).

12.—(1) Unrhyw un o'r personau a ganlyn sy'n teithio o'r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith—

- (a) gyrwyr a chriwiau ar wasanaethau gwennol ac ar wasanaethau ar gyfer cludo teithwyr neu nwyddau drwy gyfrwng system y twnnel;
- (b) gweithwyr gweithredol, gweithwyr cynnal a chadw rheilffyrdd, a gweithwyr diogelwch a diogeldd sy'n gweithio ar system y twnnel;
- (c) gweithwyr eraill sy'n cyflawni rolau hanfodol ar gyfer gweithredu, mewn modd diogel neu effeithlon, system y twnnel, gwasanaethau gwennol neu wasanaethau ar gyfer cludo teithwyr neu nwyddau drwy gyfrwng system y twnnel, neu sy'n ymwneud â diogelwch system y twnnel neu unrhyw wasanaethau o'r fath.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) mae i “gwasanaeth gwennol” yr ystyr a roddir i “shuttle service” yn adran 1(9) o Ddeddf Twnnel y Sianel 1987(1);
- (b) mae i “system y twnnel” yr ystyr a roddir i “tunnel system” yn adran 1(7) o'r Ddeddf honno.

13. Person a ddynodir gan y Gweinidog perthnasol o dan adran 5(3) o Ddeddf Dychwelyd Carcharorion i'w Gwlad eu Hunain 1984(2).

14. Person sy'n cael ei symud o'r Deyrnas Unedig yn unol â gwarant a ddyroddwyd o dan adran 1 o Ddeddf Dychwelyd Carcharorion i'w Gwlad eu Hunain 1984.

15. Person sy'n gyfrifol am hebrwng person a geisir i'w estraddodi yn unol â gwarant a ddyroddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf Estraddodi 2003(3), neu berson a geisir i'w estraddodi yn unol ag unrhyw drefniadau estraddodi eraill.

16. Cynrychiolydd i unrhyw diriogaeth a deithiodd i'r Deyrnas Unedig er mwyn cymryd i'r ddalfa berson y gorchmynnwyd ei ildio yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Estraddodi 2003.

12.—(1) Any of the following who are travelling from the United Kingdom in the course of their work—

- (a) drivers and crews on shuttle services and on services for the carriage of passengers or goods by way of the tunnel system;
- (b) operational, rail maintenance, safety and security workers working on the tunnel system;
- (c) other workers carrying out essential roles for the safe or efficient operation of the tunnel system, shuttle services or services for the carriage of passengers or goods by way of the tunnel system, or relating to the security of the tunnel system or any such services.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) “shuttle service” has the meaning given in section 1(9) of the Channel Tunnel Act 1987(1);
- (b) “tunnel system” has the meaning given in section 1(7) of that Act.

13. A person designated by the relevant Minister under section 5(3) of the Repatriation of Prisoners Act 1984(2).

14. A person being removed from the United Kingdom pursuant to a warrant issued under section 1 of the Repatriation of Prisoners Act 1984.

15. A person responsible for escorting a person sought for extradition pursuant to a warrant issued under Part 3 of the Extradition Act 2003(3) or sought for extradition pursuant to any other extradition arrangements.

16. A representative of any territory who travelled to the United Kingdom in order to take into custody a person whose surrender has been ordered pursuant to any provision of the Extradition Act 2003.

(1) 1987 p. 53.
(2) 1984 p. 47.
(3) 2003 p. 41.

(1) 1987 c. 53.
(2) 1984 c. 47.
(3) 2003 c. 41.

17. Person sy'n cael ei estraddodi neu ei allgludo o'r Deyrnas Unedig, ac unrhyw berson sy'n cael ei symud o'r Deyrnas Unedig, neu sy'n ymadael â hi yn wirfoddol, am nad oes ganddo ganiatâd i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi.

18.—(1) Peiriannydd awyrofod arbenigol, neu weithiwr awyrofod arbenigol, pan fo'n teithio o'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) ystyr “peiriannydd awyrofod arbenigol” yw person sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen fel arall i ddarparu gwasanaethau peiriannyddol at ddiben sicrhau bod gweithgareddau hedfan yn parhau i weithredu (gan gynnwys darparu gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer llinellau cynhyrchu, cydrannau hedfan, awyrennau ar y ddaear ac awyrennau newydd, ond heb ei gyfyngu i hynny);

(b) ystyr “gweithiwr awyrofod arbenigol” yw person sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen fel arall i ddarparu gwasanaethau at ddiben sicrhau bod diogelwch yn cael ei reoli a bod ansawdd yn cael ei sicrhau fel sy'n ofynnol gan y safonau, y canllawiau a'r cyhoeddiadau perthnasol ar ddiogelwch hedfan a gynhyrchir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil neu Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd(1).”

17. A person who is being extradited or deported from the United Kingdom, and any person who is being removed from, or voluntarily departing from, the United Kingdom, because they do not have leave to enter or remain in the United Kingdom.

18.—(1) A specialist aerospace engineer, or a specialist aerospace worker, where they are travelling from the United Kingdom in the course of their work.

(2) For the purposes of sub-paragraph (1)—

(a) “specialist aerospace engineer” means a person who is employed or otherwise engaged to provide engineering services for the purpose of ensuring the continued operation of aviation activities (including but not limited to the provision of maintenance and repair services for production lines, aviation components, grounded aircraft and new aircraft);

(b) “specialist aerospace worker” means a person who is employed or otherwise engaged to provide services for the purpose of ensuring safety management and quality assurance as required by relevant standards, guidance and publications on aviation safety produced by the Civil Aviation Authority or the European Union Aviation Safety Agency(1).”

(1) Sefydlwyd yr Awdurdod Hedfan Sifil o dan adran 1(1) o Ddeddf Hedfan Sifil 1971 (p. 75). Disodlwyd y Ddeddf honno gan statud cydgrynhoi, Deddf Hedfan Sifil 1982 (p. 16), y mae adran 2(1) o'r Ddeddf honno yn darparu ar gyfer parhad yr Awdurdod Hedfan Sifil. Mae diwygiadau i adran 2 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Sefydlwyd Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd gan Reoliad (EU) 2018/1139 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 4 Gorffennaf 2018 ar reolau cyffredin ym maes hedfan sifil ac yn sefydlu Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd, ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 2111/2005, (EC) Rhif 1008/2008, (EU) Rhif 996/2010, (EU) Rhif 376/2014 a Chyfarwyddebau 2014/30/EU a 2014/53/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 552/2004 ac (EC) Rhif 216/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 3922/91.

(1) The Civil Aviation Authority was established under section 1(1) of the Civil Aviation Act 1971 (c. 75). That Act was replaced by a consolidating statute, the Civil Aviation Act 1982 (c. 16), section 2(1) of which provides for the continued existence of the Civil Aviation Authority. There are amendments to section 2 but none is relevant. The European Union Aviation Safety Agency was established by Regulation (EU) 2018/1139 of the European Parliament and of the Council of 4 July 2018 on common rules in the field of civil aviation and establishing a European Union Aviation Safety Agency, and amending Regulations (EC) No 2111/2005, (EC) No 1008/2008, (EU) No 996/2010, (EU) No 376/2014 and Directives 2014/30/EU and 2014/53/EU of the European Parliament and of the Council, and repealing Regulations (EC) No 552/2004 and (EC) No 216/2008 of the European Parliament and of the Council and Council Regulation (EEC) No 3922/91.

Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020

3.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) yn y diffiniad o “person awdurdodedig”, yn is-baragraffau (a) a (b), ar ôl “cyrraedd” mewnosoder “neu'n ymadael”;

(b) yn y lle priodol, mewnosoder—

“ystyr “gwasanaeth teithwyr rhyngwladol allan” (“*outbound international passenger service*”) yw gwasanaeth masnachol y mae teithwyr yn teithio arno o borthladd yng Nghymru i gyrchfan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin ar lestr neu awyren;”.

(3) Yn rheoliad 3—

(a) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Rhaid i weithredwr unrhyw wasanaeth teithwyr rhyngwladol allan ddarparu'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (2B) fel rhan o unrhyw gyfleuster a reolir gan y gweithredwr y caiff person ei ddefnyddio i archebu ar lein daith ar y gwasanaeth.

(2B) Yr wybodaeth a grybwyllir ym mharagraff (2A) yw—

(a) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen y mae rhaid ei gosod mewn lle amlwg fel ei bod yn weladwy cyn archebu, a

(b) dolen i https://llyw.cymru/eithriadau-rhag-hunanyysu-coronafeirws-covid-19-html?_ga=2.173775011.1431933475.16178961621482751966.1610356396#section-57963.

(2C) Nid yw paragraff (2A) yn gymwys mewn perthynas â theithiwr sy'n cyrraedd Cymru ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol ac sy'n ymadael â Chymru yn ddiweddarach ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol allan os yw'r ddwy daith yn rhan o'r un archeb.”;

(b) ym mharagraff (3), yn lle “paragraff (1)” rhodder “paragraffau (1) a (2A)”.

Amendment of the Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020

3.—(1) The Health Protection (Coronavirus, Public Health Information for Persons Travelling to Wales etc.) Regulations 2020(1) are amended as follows.

(2) In regulation 2—

(a) in the definition of “authorised person”, in sub-paragraphs (a) and (b), after “arriving” insert “or departing”;

(b) in the appropriate place, insert—

““outbound international passenger service” (“*gwasanaeth teithwyr rhyngwladol allan*”) means a commercial service by which passengers travel from a port in Wales to a destination outside the common travel area on a vessel or aircraft;”.

(3) In regulation 3—

(a) after paragraph (2) insert—

“(2A) The operator of any outbound international passenger service must provide the information specified in paragraph (2B) as part of any facility managed by the operator by which a person may make an online booking for travel on the service.

(2B) The information mentioned in paragraph (2A) is—

(a) the information set out in Part 3 of the Schedule which must be embedded in a prominent place so that it is visible prior to a booking being made, and

(b) a link to <https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19-html#section-57963>.

(2C) Paragraph (2A) does not apply in relation to a passenger who arrives in Wales on an international passenger service and later departs from Wales on an outbound international passenger service if both journeys are part of the same booking.”;

(b) in paragraph (3), for “paragraph (1)” substitute “paragraphs (1) and (2A)”.

(1) O.S. 2020/595 (Cy. 136) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/1118 (Cy. 253), O.S. 2020/1521 (Cy. 325), O.S. 2021/72 (Cy. 18) ac O.S. 2021/171 (Cy. 39).

(1) S.I. 2020/595 (W. 136) as amended by S.I. 2020/714 (W. 160), S.I. 2020/1118 (W. 253), S.I. 2020/1521 (W. 325), S.I. 2021/72 (W. 18) and S.I. 2021/171 (W. 39).

(4) Yn rheoliad 3A, ar ôl paragraff (5) mewnosoder—

“(6) Mae paragraff (7) yn gymwys pan fo taith wedi ei harchebu, o leiaf 48 o oriau cyn yr amser y disgwylir i'r gwasanaeth teithwyr rhyngwladol allan ymadael, ar gyfer teithiwr (“Q”) ar y gwasanaeth hwnnw.

(7) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, o leiaf 24 o oriau cyn yr amser y disgwylir i'r gwasanaeth teithwyr rhyngwladol allan ymadael, rhaid i weithredwr y gwasanaeth hwnnw sicrhau bod Q wedi cael yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (8) drwy neges destun, hysbysiad gwthio, e-bost neu ar lafar.

(8) Yr wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (7) yw—

(a) pan fo'r wybodaeth wedi ei darparu drwy e-bost—

(i) yr wybodaeth a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen, a

(ii) https://llyw.cymru/eithriadau-rhag-hunanynysu-coronafeirws-covid-19.html?_ga=2.173775011.1431933475.16178961621482751966.1610356396#section-57963;

(b) pan fo'r wybodaeth wedi ei darparu ar lafar, yr wybodaeth a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen;

(c) pan fo'r wybodaeth wedi ei darparu drwy neges destun neu hysbysiad gwthio, yr wybodaeth a nodir yn Rhan 4 o'r Atodlen.

(9) Pan fo person arall (“B”) yn archebu taith ar wasanaeth teithwyr rhyngwladol allan ar ran teithiwr arall (pa un a yw B hefyd yn deithio ar y gwasanaeth hwnnw ai peidio), mae'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn unol â'r rheoliad hwn i'w drin fel gofyniad y cydymffurfwyd ag ef os darparwyd yr wybodaeth ofynnol i B yn y modd gofynnol o leiaf 24 o oriau cyn yr amser y disgwylid i'r gwasanaeth hwnnw ymadael, ynghyd â chais ysgrifenedig bod B yn darparu'r wybodaeth honno i'r teithiwr.”

(5) Yn rheoliad 6—

(a) ym mharagraff (1), yn lle “rheoliad 3A(2)” rhodder “rheoliad 3A(2) neu (7),”;

(b) ym mharagraff (2), yn lle “rheoliad 3(1) neu (3)” rhodder “rheoliad 3(1), rheoliad 3A(2) neu (7),”.

(6) Yn yr Atodlen, ar ôl Rhan 2 mewnosoder—

(4) In regulation 3A, after paragraph (5) insert—

“(6) Paragraph (7) applies where at least 48 hours prior to the scheduled departure time of an outbound international passenger service, a booking is made for a passenger (“Q”) to travel on that service.

(7) Where this paragraph applies, at least 24 hours prior to the scheduled departure time of the outbound international passenger service, the operator of that service must ensure that Q has been provided with the information specified in paragraph (8) by text message, push notification, email or orally.

(8) The information required by paragraph (7) is—

(a) where the information is provided by email—

(i) the information set out in Part 3 of the Schedule, and

(ii) a link to <https://gov.wales/exemptions-self-isolation-coronavirus-covid-19.html#section-57963>;

(b) where the information is provided orally, the information set out in Part 3 of the Schedule;

(c) where the information is provided by text message or push notification, the information set out in Part 4 of the Schedule.

(9) Where another person (“B”) makes a booking on an outbound international passenger service on behalf of another passenger (whether or not B is also a passenger on that service), the requirement to provide information in accordance with this regulation is to be treated as complied with if the required information was provided to B in the required manner at least 24 hours prior to the scheduled departure time of that service, along with a written request that B provides that information to the passenger.”

(5) In regulation 6—

(a) in paragraph (1), for “regulation 3A(2)” substitute “regulation 3A(2) or (7),”;

(b) in paragraph (2), for “regulation 3(1) or (3)” substitute “regulation 3(1), regulation 3A(2) or (7),”.

(6) In the Schedule, after Part 2 insert—

“Rhan 3

Yr wybodaeth sydd i’w darparu at ddibenion rheoliadau 3(2B)(a) a 3A(8)(a)(i) ac (8)(b) yw—

“International travel restrictions - You can only travel from Wales to a destination outside the common travel area for legally permitted reasons. This does not include holidays.

You must complete an international travel declaration form and may be required to show the form at the port of departure. You may also wish to take with you to the port evidence supporting the reason for your trip.

Some job related exemptions apply. You may be issued with a Fixed Penalty Notice and directed to leave the port if you do not have a valid reason for travel.”

Rhan 4

Yr wybodaeth sydd i’w darparu at ddibenion rheoliad 3A(8)(c) yw—

“International travel from Wales is restricted - only travel if you have a legally permitted reason. You must complete a declaration form. Penalties apply.”.

“Part 3

The information to be provided for the purposes of regulations 3(2B)(a) and 3A(8)(a)(i) and (8)(b) is—

“International travel restrictions - You can only travel from Wales to a destination outside the common travel area for legally permitted reasons. This does not include holidays.

You must complete an international travel declaration form and may be required to show the form at the port of departure. You may also wish to take with you to the port evidence supporting the reason for your trip.

Some job related exemptions apply. You may be issued with a Fixed Penalty Notice and directed to leave the port if you do not have a valid reason for travel.”

Part 4

The information to be provided for the purposes of regulation 3A(8)(c) is—

“International travel from Wales is restricted - only travel if you have a legally permitted reason. You must complete a declaration form. Penalties apply.”.

Mark Drakeford

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 3.43 p.m. ar 9 Ebrill 2021

©©Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister, one of the Welsh Ministers
At 3.43 p.m. on 9 April 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty’s Stationery Office and Queen’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/457>

ISBN 978-0-348-11961-9



9 780348 119619